# Grŵp Trawsbleidiol ar y Ddeddf Teithio Llesol

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2017

## 12.30 yn Ystafell Giniawa 2, Tŷ Hywel.

**Yn bresennol:** gweler y rhestr atodedig

**Croeso a chyflwyniadau:** Croesawodd Lee Waters AC bobl i'r cyfarfod ac eglurodd pam ei bod yn bwysig cael Grŵp Trawsbleidiol y Cynulliad sy'n canolbwyntio'n benodol ar weithredu'r Ddeddf Teithio Llesol.

**Ethol Cadeirydd ac Ysgrifennydd:** Cynigiwyd Lee Waters fel Cadeirydd a chafodd ei ethol heb unrhyw wrthwynebiad. Cynigiodd Lee Waters fod Chris Roberts, a oedd bellach yn gweithredu fel ei Gynghorydd Teithio Llesol, i fod yn Ysgrifennydd. Derbyniwyd hyn yn y cyfarfod.

**Trosolwg o'r Ddeddf a chynnydd hyd yma:** Nododd Chris Roberts brif ddibenion y Ddeddf: i gael mwy o bobl yn cerdded a beicio er mwyn manteisio ar welliannau iechyd, ansawdd aer a'r amgylchedd. Dim ond pe bai'r Ddeddf yn annog pobl newydd i ddewis cerdded a beicio yn hytrach na defnyddio car y byddai hyn yn gweithio. Y prif rwystr i ddechrau beicio, yn enwedig i fenywod, yw'r canfyddiad nad yw beicio'n ddiogel, ac felly roedd yn hanfodol bod y Ddeddf yn darparu seilwaith a oedd yn caniatáu i bobl wneud teithiau cyfan yn ddiogel. Wrth wraidd y Ddeddf mae'r Map Rhwydwaith Integredig lle mae awdurdodau lleol wedi pennu cynllun pymtheng mlynedd ar gyfer rhwydwaith cerdded a beicio delfrydol sy'n cysylltu yn ddiogel lle mae pobl yn byw â'r mannau y mae angen iddynt deithio iddynt. Mae'r Canllawiau Dylunio a roddwyd ar waith gan y Ddeddf yn nodi sut y dylai'r Mapiau gael eu dylunio ac yn pwysleisio pwysigrwydd Rhwydwaith Sylfaenol o strydoedd gyda llai o draffig mewn ardaloedd preswyl.

Mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol gyflwyno eu Mapiau Rhwydwaith Integredig terfynol i Lywodraeth Cymru erbyn 3 Tachwedd; mae cryn bryder nad yw llawer o awdurdodau lleol wedi rhoi sylw dyladwy i gynllunio'r rhwydwaith sylfaenol ond wedi canolbwyntio ar ddatblygu nifer gyfyngedig o lwybrau, yn hollol groes i'r cyngor yn y Canllawiau Dylunio. Amlygwyd dwy ddarpariaeth arall o'r Ddeddf: y gofyniad i ddarparu seilwaith teithio llesol pan fydd priffyrdd yn cael

eu hadeiladu neu eu hailgynllunio a'r angen i wneud darpariaeth ar gael i gerddwyr a beicwyr pan fydd gwaith ffordd yn amharu ar lwybr.

Roedd y drafodaeth ddilynol yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd y Ddeddf yn hyrwyddo newid ymddygiad, yn enwedig i bobl ifanc. Mynegwyd pryder yn y broses o gymeradwyo'r Mapiau Rhwydwaith Integredig, p'un a oedd rôl ar gyfer gwaith craffu annibynnol a'r graddau yr oedd awdurdodau lleol yn glir ynghylch yr hyn a ddisgwylir ohonynt, yn enwedig o ran blaenoriaethu'r gwaith o gyflwyno'r rhwydweithiau. Cododd nifer o siaradwyr y mater o lefel yr adnoddau ac arbenigedd yr oedd awdurdodau lleol yn gallu ei rhoi i'r broses hon a digonolrwydd y gefnogaeth a'r hyfforddiant a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Holodd yr Aelodau ynghylch y potensial i ddiwygio'r Mapiau Rhwydwaith Integredig ymhellach, a nodwyd fod yn rhaid eu hailgyflwyno o leiaf bob tair blynedd ond bod Caerdydd wedi ymrwymo i gyflwyno map gwell o fewn y deuddeg mis nesaf. Roedd yn ofynnol i awdurdodau lleol gydweithio i sicrhau llwybrau trawsffiniol ar gyfer cymudo ond nid oedd yn glir bod hyn yn digwydd.

Soniodd Lee Waters am ei gyfarfod gyda'r ddau weinidog sy'n gyfrifol am deithio llesol. Bydd adolygiad o'r Canllawiau Dylunio - mynegwyd pryder na ddylai hyn gael ei adael yn gyfan gwbl i swyddogion Llywodraeth Cymru, a bod angen cynnwys Phil Jones a oedd wedi cadeirio'r panel annibynnol gwreiddiol a luniodd y canllawiau. Holodd Lee i ba raddau y mae'r gofyniad yn y Ddeddf bod seilwaith teithio llesol wedi'i gynnwys mewn datblygiadau priffyrdd newydd yn cael ei arsylwi, gan nodi diffyg darpariaeth cerdded a beicio yn y cynlluniau ar gyfer ffordd osgoi Caernarfon. Roedd y Gweinidogion yn ceisio cynyddu buddsoddiad mewn teithio llesol; a phwysleisiodd nifer o bobl bwysigrwydd sicrhau mai dim ond llwybrau a oedd yn bodloni gofynion y Canllawiau Dylunio fyddai'n cael buddsoddiad.

Trafodwyd effeithiolrwydd Bwrdd Teithio Llesol Llywodraeth Cymru, a theimlid mai dim ond gyda chadeirydd annibynnol y gallai ddarparu her effeithiol. Nid oedd y bwrdd yn cael rôl wrth graffu ar y Mapiau Rhwydwaith Integredig.

Roedd Metro De Cymru yn cynnig cyfleoedd sylweddol i wella'r ddarpariaeth o ran teithio llesol.

**Rôl y Grŵp a'r Flaenraglen Waith**

Pwysleisiodd David Melding bwysigrwydd y Grŵp sy'n adnodd i Aelodau'r Cynulliad, gan ddarparu briffiau craff ar gyfer cwestiynau, dadleuon ac ati. Cynigiodd y Cadeirydd sefydlu gweithgor bach a

fyddai'n cynnwys ei hun, yr Ysgrifennydd, Meryl James a Steve Brooks i ddatblygu busnes y Grŵp gyda chyfarfodydd llawn yn cael eu cynnal bob chwarter. Cytunwyd ar hyn. Roedd y pynciau a ganlyn i'w hystyried ar gyfer y flaenraglen waith: hyrwyddo newid ymddygiad; cyllid; pennu targedau; a datblygu cod ymarfer ar ddarpariaeth ar gyfer teithwyr llesol pan fydd gwaith ffordd yn digwydd.

**Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a daeth â'r cyfarfod i ben.**

**Yn bresennol:**

| Enw cyntaf | Cyfenw | Sefydliad |
|---|---|---|
| John | Griffiths | AC |
| Mike | Hedges | AC |
| Huw | Irranca Davies | AC |
| David | Melding | AC |
| Jeremy | Miles | AC |
| Lee | Waters | AC |
| Nancy | Cavill | (Yn cynrychioli Julie Morgan AC) |
| Robin | Lewis | (Yn cynrychioli Vikki Howells AC) |
| Darren | Price | (Yn cynrychioli Dai Davies AC) |
| Anne | Adams King | Beicio Cymru |
| Stephen | Brookes | Sustrans Cymru |
| Rebecca | Brough | Ramblers Cymru |
| Lindsey | Brown | Sustrans Cymru |
| Duncan | Dollimore | Cycling UK |
| Meryl | James | Julie Morgan AC |
| Ryland | Jones | Sustrans Cymru |
| Rachel | Maycock | Living Streets |
| Chris | Roberts | Lee Waters AC |
| Liz | Thorne | Lee Waters AC |
| Natasha | Withey | Sustrans Cymru |